



www.furthermaths.org.uk/wales



Astudiaeth Achos	Ysgol Tregwyr	
Cyfeiriad	Heol Cecil, Gorseinon, Abertawe SA4 3DL	
Prifysgol	Prifysgol Durham	

Astudiaeth Achos: Trosglwyddo i Brifysgol

Myfyriwr – Leah Clarke

Cefndir

Astudiodd Leah Clarke Fathemateg Bellach AS drwy'r Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach. Cynhaliwyd yr hyfforddiant wyneb yn wyneb yn ei hysgol unwaith bob pythefnos

Cafodd FMSP Cymru air gyda Leah yn Ionawr 2017

FMSP Cymru: Felly beth ddigwyddodd ar ôl i chi basio eich arholiadau Mathemateg Bellach?

Rwyf yn y 4edd flwyddyn o radd Meistr integredig mewn Cyfrifiadureg. Rwy'n gweithio'n galed iawn. Dwedodd rhywun unwaith wrthyf fod 'gradd dda yn radd galed', felly dwi wedi cadw hynny mewn cof. Roeddwn i'n hoff iawn o gyfrifiadureg. Rwyf wedi ceisio gwneud lleoliadau bob blwyddyn. Yn y flwyddyn gyntaf fe dreuliais i'r haf gyda Blackberry fel profwr. Yn yr ail flwyddyn es i Google fel peiriannydd meddalwedd a haf diwethaf es i American Express fel peiriannydd meddalwedd. Maent wedi cynnig swydd i mi. Nid wyf wedi derbyn ond yn ôl pob tebyg mi wnaf.

Beth wnaethoch chi ei astudio a ble?

Dechreuais gyda Mathemateg, Cemeg, Ffiseg a Hanes. Roeddwn am wneud cais i Rydychen ar y pryd. Doeddwn i ddim yn gwybod am Fathemateg Bellach. Dwedodd fy athro Mathemateg wrthyf am y peth. Meddyliais - mathemateg ychwanegol? Mi wnai hynny! Felly, newidiais Ffiseg i Fathemateg Bellach yn y mis cyntaf. Gwnes AS dros ddwy flynedd. Fe wnes dair lefel A ac AS dros 2 flynedd.

Ydych chi'n meddwl bod astudio Mathemateg Bellach drwy FMSP Cymru wedi helpu eich trosglwyddiad i Brifysgol?

Helpodd Mathemateg Bellach cymaint yn y flwyddyn gyntaf. Mae'r holl fatricsau yn FP1 wedi bod o gymorth sylweddol mewn Cyfrifiadureg.

A oes unrhyw ffordd y teimlwch fod Mathemateg Bellach wedi helpu yn benodol?

Nid oeddem yn defnyddio llawer o fathemateg lefel A yn y flwyddyn gyntaf, ond mi wnaethom FP1 ar fatricsau. Gwnaethom lawer o hynny a phrawf drwy anwythiad. Ni allaf gofio gwneud hynny mewn mathemateg arferol ychwaith. Fe wnes i hyn mewn Mathemateg Bellach. Roedd y pethau ychwanegol yn wirioneddol ddefnyddiol. Mae pobl nad ydynt wedi gwneud Mathemateg Bellach yn y flwyddyn gyntaf ei chael yn anodd mewn gwirionedd. Mae'n wych ar gyfer peirianeg hefyd - mae fy ffrind yn beiriannydd ac yn ei chael yn ddefnyddiol iawn. Dechreuais feddwl y byddai Ffiseg yn dda i mi, ond mewn gwirionedd roedd Mathemateg Bellach yn llawer mwy defnyddiol ar gyfer fy ngwrs gradd

A fydddech yn argymhell Mathemateg Bellach a pham?

Byddwn yn dweud wrth bawb am wneud yr un pynciau â mi. Fedrai ddim credu pa mor dda y mae wedi gweithio i mi. Byddwn yn argymhell Mathemateg Bellach. Roeddwn yn hoffi'r ffordd cafodd y cwrs ei strwythuro. Nid oedd fel gwersi ysgol. Daeth y tiwtor i'r ysgol bob pythefnos am awr a hanner. Byddai'n mynd trwy bethau yna gadael pethau i mi wneud ar ben fy hun. Mae hyn yn llawer mwy tebyg i astudio yn y brifysgol. Roedd yr agwedd yna yn ddefnyddiol iawn.